O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1188 (Cy. 289)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Tachwedd 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o’r ffordd gyswllt” (“*the lengths of the link road*”) yw’r darnau o'r ffordd gyswllt sy'n cysylltu ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r gorllewin y gefnffordd â Marchnad Da Byw Caerfyrddin a throsbont Travellers' Rest, yn y drefn honno, yn Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o'r gefnffordd yn Travellers' Rest yn Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.**(1) Nid yw’r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.**Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig: 23 Tachwedd 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1. Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Travellers' Rest a'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 67 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd gyswllt tua'r de i drosbont Travellers' Rest hyd at bwynt 543 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn o'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin i gyfeiriad y dwyrain am 200 metr.

# 2016 Rhif 1188 (Cy. 289)